



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Nodiadau ar Gyfarfod Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru

7 Medi 2018

9:00 am – 12:30 pm

Ystafell y Bwrdd, OpTIC, Llanelwy

Yn bresennol:	Y Cyng. Gareth Roberts (cadeirydd), Neill Anderson, Neil Ayling, Sally Baxter, Lynda Colwell, Kate Devonport (ar ran Jenny Williams), Morwena Edwards, Y Cyng. Bobby Feeley, John Gallandes (ar ran Wendy Jones), Phil Gilroy (ar ran Nicola Stubbins), Y Cyng. Christine Jones, Bethan Jones Edwards, Jennie Lewis, Y Cyng. Joan Lowe, Helen Macarthur, Claire Sullivan (ar ran Dave Worrall), Caroline Turner, Jo Ward, Vin West, Peter Williams, Mary Wimbury, Marian Wyn Jones
Ymddiheuriadau:	Wendy Jones, Llinos Medi Huws, Teresa Owen, Y Cyng. Liz Roberts, Nicola Stubbins, Jenny Williams, Dave Worrall, Charlotte Walton
Hefyd yn bresennol:	Colin Everett (Prif Weithredwr, Cyngor Sir y Fflint / Prif Weithredwr Rhanbarthol ar ran Judith Greenhalgh), Keith Moultrie (Cyfarwyddwr – y Sefydliad Gofal Cyhoeddus, Prifysgol Oxford Brooks), Sara Harvey (Arweinydd Strategol Cenedlaethol dros Awtistiaeth), Lesley Singleton (Cyfarwyddwr Partneriaethau, Is-adran Iechyd ac Anableddau Dysgu, BCUHB, ar ran Jill Timmins), Jo Taylor (Swyddog AS, Cyngor Sir y Fflint), Christine Burns (Rheolwr-Ymarferydd Gwasanaeth GAI Gogledd Cymru)

Eitem		Camau gweithredu
1.	Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau Croesawodd GR bawb i'r cyfarfod. Gwnaed cyflwyniadau a chafodd yr ymddiheuriadau uchod eu nodi. Croesawodd GR hefyd JL a PW i'w cyfarfod cyntaf fel y cynrychiolwyr Gofalwyr newydd; bydd y ddau'n cysgodi VW am ddau gyfarfod. Croesawodd GR hefyd MWJ, Is-gadeirydd BCUHB, i'r cyfarfod.	
2.	Cymru Iachach / Adolygiad Llywodraethu Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad gan KM ar yr adolygiad llywodraethu ar gais Bwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru (BAGC), yn disgrifio'r cyd-destun a ffyrdd posib ymlaen, yn gofyn am gyngor ar beth i'w ddatblygu ymhellach, gyda thrafodaeth ar yr adroddiad dilynol. O ran y gweithgareddau angenrheidiol, mae'r cam cyntaf (adolygu'r trefniadau, polisi a'r gofynion deddfwriaethol) wedi'i gwblhau ac mae'r ail gam (cyfweiliadau i ddatblygu a phrofi opsiynau ar gyfer y dyfodol) ar y gweill.	

Dywedodd KM pa mor bwysig oedd datblygu cyd-wasanaethau a gwasanaethau cymunedol a hefyd bod angen creu seiliau cadarn ar gyfer arloesi lleol a chanolbwyntio ar yr RPB fel elfen allweddol wrth symud ymlaen gyda chynllun Cymru Iachach. Mae angen i'r BPRh sicrhau y datblygir gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig gyda phwyslais lleol a bydd y gronfa drawsnewid yn golygu y bydd modd gwneud hyn.

Prif gwestiwn yr ymarfer hwn, eglurodd KM, oedd: Beth os oes angen addasu'r trefniadau rhanbarthol presennol? Yn y cyd-destun hwn, edrychwyd ar y BAGC a'r Bwrdd Uchelgais Economaidd (BUE), y BPRhGC a Grŵp Arweinyddiaeth (GA) yr BPRh, y pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), y cynllun gweithredu iechyd a gofal rhanbarthol, a'r clystyrau. Oherwydd llywodraethu cymhleth y rhanbarth, a bod angen dylanwadu ar integreiddio lleol, nid oes ateb clir i lywodraethu ar y funud.

Pwysleisiodd GR nad cynnig amwys ar gyfer rhywbeth a allai ddigwydd rhyw ddydd yw Cymru Iachach. Yn hytrach mae'n gynllun pendant sydd ar fin digwydd a fydd, gobeithio, yn cyflwyno newid cadarnhaol.

Rhoddodd KM drosolwg ar rolau'r BAGC, yr BUE a'r BPRh. Nododd hefyd fod Llywodraeth Cymru (LIC) yn y broses o ymgynghori ar Ganllawiau Rhan 9 tan fis Hydref 2018, sy'n rhan o ymdrechion i 'dacluso' y gofynion ar gyfer Byrddau PRh. Pwysodd ar y Bwrdd i nodi gofynion yr ymgynghoriad yn ofalus gan dynnu sylw at rôl y tîm rhanbarthol mewn cyfrannu at amcanion y Byrddau PRh.

Mae angen i'r 14 clwstwr yn y Gogledd gydgysylltu a bod mor drefnus â phosib nid yn unig i ddarparu gwasanaethau iechyd ond gwasanaethau gofal cymdeithasol a lles mor effeithlon â phosib. Awgrymodd KM y gallai fod yn amser da edrych yn fwy manwl ar y gwaith presennol sy'n cael ei wneud yn y clystyrau a meddwl am fodolau gwasanaeth integredig.

Y prif themâu i ddod o'r cyfweiliadau hyd yma yw:

- Nid yw BAGC yn trafod yr agenda iechyd / gofal cymdeithasol / lles yn ddigon rheolaidd.
- Mae'r BPRh yn fwrdd gwerthfawr ond rhaid iddo fod yn fwy eglur ynghylch ei rôl.
- Mae'r cysylltiadau rhwng yr BPRh a'r Byrddau BGC yn aml yn aneglur.
- Mae angen i'r rhaglen a'r cynllun gweithredu rhanbarthol newid i gwrdd â gofynion Cymru Iachach.
- Gallai fod angen i'r trefniadau llywodraethu ar glystyrau ac ardaloedd lleol newid.

Soniodd VW am rôl pobl unigol a'r Panel Dinasyddion (PD), gan ddweud nad yw'r panel yn cwrdd wyneb yn wyneb. Y nod yn y pen draw yw creu cydraddoldeb rhwng pobl sydd angen cymorth arnynt a'r gweithwyr proffesiynol sy'n ei ddarparu a sicrhau bod dinasyddion yn cael eu cynnwys.

Dywedodd CE fod llawer mwy o drefniadau gweithio rhanbarthol nag oedd amser ar eu cyfer yn y cyflwyniad. Fodd bynnag, yn lle cyflwyno her, mewn llawer o ffyrdd mae Gogledd Cymru'n ardal symlach, nid anoddach, nag eraill oherwydd y diwylliant cryf o weithio mewn partneriaeth. Gallai'r ffaith nad oes arbenigeddau ar draws yr amrywiol grwpiau olygu bod mwy o le i gyfle.

Cytunodd SB fod gwaith partneriaeth da'n digwydd o hyd ar lefel leol ar draws y Gogledd, er bod ychydig o ddatgysylltu rhwng y lefelau hynny a rhwng yr BPRh a byrddau eraill.

Dywedodd MWJ fod y Bwrdd Iechyd wedi penodi i swydd newydd o Gyfarwyddwr Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol yn ddiweddar, fydd yn aelod allweddol o'r BPRh ac yn rhan bwysig o wthio'r newidiadau angenrheidiol ymlaen.

Dywedodd MW mai rôl yr BPRh yw adrodd i'r BAGC ond, oherwydd nad yw Prif Weithredwr rhanbarthol yn gadeirydd mwyach, bod peth o'r cysylltiad hwnnw wedi'i golli. Dylai'r Bwrdd barhau i feithrin cysylltiadau agos â Phrif Weithredwyr a chyfarwyddwyr rhanbarthol. Dywedodd CE y bydd Prif Weithredwr Sir Ddinbych, Judith Greenhalgh, yn dod yn aelod sefydlog o'r Bwrdd i sicrhau parhad. Fodd bynnag, dywedodd GR ei fod ef a BJE wedi mynychu cyfarfodydd y Prif Weithredwyr a'r BAGC i ddiweddar ar faterion y Bwrdd hwn.

Disgrifiodd KM rai ffyrdd posib ymlaen i'r BAGC, yr BPRh, y Byrddau BGC a'r clystyrau / ardaloedd lleol, a thrafodwyd y rhain ymhellach.

Cafwyd trafodaeth ar aelodaeth iechyd y Bwrdd. Dywedodd SB fod Prif Weithredwr BCUHB wedi ysgrifennu at Gadeirydd yr BPRh yn gofyn am fwy o aelodau iechyd (awgrymwyd pedwar aelod posib; y Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol, y Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad, a'r Is-gadeirydd). Mae'n bwysig sicrhau cysylltiad cryf â'r gwaith sy'n digwydd yn yr ardaloedd lleol, gyda chysylltiad i ochr gorfforaethol BIPBC.

Dywedodd MWJ fod BIPBC yn gweld y Bwrdd hwn fel corff sy'n gyrru trawsnewid: mae'r agenda drawsnewid yn cael ei phenderfynu yma a BIPBC yn gweithio gyda phartneriaid lleol i'w chyflwyno. Cytunodd BF y dylid cael mwy o bobl o'r maes iechyd ar y Bwrdd gan ychwanegu bod datgysylltu wedi bod erioed rhwng y tri chyfarwyddwr ardal ac y dylid hefyd eu hystyried ar gyfer rôl ar y Bwrdd.

Pwysleisiodd aelodau hefyd fod angen adnoddau ar iechyd i ddarparu gwasanaethau plant, teulu a ffrindiau sy'n darparu gofal yn ddi-dâl, a gofaluwr ifanc / gofaluwr sy'n oedolion ifanc.

Cytunodd KM mai'r gweithlu / 'gweithlu gofal' oedd un o'r materion mwyaf oedd yn codi mewn cyfweiliadau a bod angen ei ddatrys ar fyrder fel problem economaidd yn ogystal ag un iechyd a gofal cymdeithasol.

Dywedodd GR y bydd angen i wasanaethau gael eu darparu'n dra gwahanol yn y dyfodol. Nid oes angen bod yn benodol o ran pwy sy'n gwneud beth; mae angen i'r Bwrdd benderfynu beth sydd angen ei wneud, a phwy i wneud hynny. Os oes angen i rywun fod ar y Bwrdd, dylent fod, hyd yn oed pe bai'n golygu nad yw eraill yn mynychu. Y partneriaid sy'n gwybod orau pwy sydd angen bod yn bresennol i wneud penderfyniadau.

Dywedodd NA hefyd fod y llwyddiant gorau hyd yma wedi bod ar lefel ardal ac y dylai'r Bwrdd adeiladu ar hyn yn ogystal â chefnogi'r Tîm Cydweithredu Rhanbarthol a'u gwaith pwysig.

Casglodd KM fod y Bwrdd yn y lle iawn ac y gallai, drwy adeiladu ar lwyddiannau blaenorol, greu cynllun cadarn a synhwyrol ar sail y syniad o 'ddatblygu'n rhanbarthol, darparu'n lleol'. Bydd KM yn cwblhau ei adroddiad i'r BAGC ac yn ei rannu â'r BPRh.

Cymru Iachach – Cynllun Gogledd Cymru

Diolchodd GR i BJE a'i thîm am eu gwaith ar ddatblygu cynllun Gogledd Cymru, a hefyd i eraill a gyfrannodd eu hamser dros yr haf i weithio arno.

Nododd BJE fod yr adroddiad ar y prif bwyntiau'n nodi gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen gan ddiolch i aelodau'r Bwrdd a fu'n eistedd ar y grŵp. Roedd y grŵp wedi cyfarfod yn wythnosol i roi sylw i amrywiol gamau gweithredu. Roedd y Bwrdd wedi derbyn diweddariad ym mis Mehefin, a chyfarfod y Prif Weithredwr wedi derbyn diweddariad ym mis Awst; cynhaliwyd cyfarfod o'r GA hefyd ym mis Awst i rannu a diweddarau. Roedd y cynllun wedi cael ei ddatblygu a'i ddiwygio ar sail adborth. Y gobaith yw bod yr holl brif bwyntiau wedi'u hadlewyrchu yn y drafft terfynol. Cafodd aelodau'r Bwrdd eu hannog i roi eu barn.

Diolchodd ME i BJE am ei gwaith yn rhoi'r ddogfen at ei gilydd dros yr haf, a hefyd i KM am ei adborth defnyddiol. Pwrpas y ddogfen yw bod yn gynllun cydlynol ar gyfer y sectorau penodol. Mae hefyd yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o ddatblygu'r asesiad o anghenion y boblogaeth. Mae ffocws y rhan fwyaf o'r gwaith trawsnewid ar:

- Symud at fodel o ddarparu gwasanaethau mwy lleol.
- Rhoddir sylw penodol i'r bartneriaeth Pland & Phobl Ifanc a chefnogi teuluoedd / anabledau dysgu / iechyd meddwl.
- Pwysigrwydd datblygu'r gweithlu a chefnogi gofalwyr.
- Gweithio gyda'r BUE a phwysigrwydd arloesi digidol.

Roedd sylwadau a chwestiynau gan y Bwrdd yn cynnwys:

- Cais am fwy o sôn am faterion plant a sylw penodol i ofalwyr ifanc ochr yn ochr â dinasyddion.
- Gofynnodd VW a fyddai'n bosib cynyddu'r gwasanaethau eiriolaeth pe bai'r cais am gyllid yn llwyddo.
- Dywedodd CE fod y Prif Weithredwyr o blaid ac yn gefnogol.

	<ul style="list-style-type: none"> • Gofynnodd CT pwy fyddai'n rhedeg y gronfa pe bai'r cais yn llwyddo. Dywedodd GR y byddai'r GA yn trafod hyn. • Gofynnodd JG sut yr oedd y cynllun hwn yn cyd-fynd â chynlluniau cyllideb y partneriaid ac a oedd yn realistig ei ddarparu fel rhan o ffrwd cyllid grant o ddwy flynedd. Eglurodd BJE nad oes sicrwydd o arian i unrhyw ranbarth; bydd cyllid yn cael ei ddyrannu gan ddibynnu ar gryfder y cynlluniau. <p>Aeth GR drwy'r eitemau o dan adran 6, 'Argymhellion', yn yr adroddiad ar y prif bwyntiau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 6.1 Bod y NWRPB yn cadarnhau "Ymateb Gogledd Cymru i'r cynllun Cymru Iachach". <ul style="list-style-type: none"> ○ Cytunwyd gan y Bwrdd. • 6.2 Bod y cynnig yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru gan Gadeirydd y NWRPB. <ul style="list-style-type: none"> ○ Cytunwyd gan y Bwrdd. • 6.3 Bod pob partner yn mynd â'r cynnig drwy eu prosesau llywodraethu / gwleidyddol, fel y bo hynny'n briodol. <ul style="list-style-type: none"> ○ Cytunwyd gan y Bwrdd. • 6.4 Bod y grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei ddirwyn i ben oherwydd ei fod wedi cyflawni'r hyn y dylai fod wedi'i wneud. <ul style="list-style-type: none"> ○ Cytunwyd gan y Bwrdd. • 6.5 Bod y BPRhGC yn cytuno ar bwy a fyddai'n cyfarfod â LIC os am gael deialog bellach ar gynnig Gogledd Cymru. <ul style="list-style-type: none"> ○ I'w gytuno gan y LG a'i gyflwyno drachefn i'r BPRh. • 6.6 Bod y swyddogion arwain strategol wedi'u cytuno ac achos busnes llawn / cynlluniau darparu trylwyr wedi'u datblygu ar gyfer y rhaglen hon. Y dylai hyn hefyd gynnwys dod ag unrhyw ffrydiau gwaith sy'n dal i fynd, ond nad ydynt yn cyfrannu at ddarparu'r rhaglen hon, i ben. Bydd angen cytuno ar ofynion adrodd ar gyfer y NWRPB a LIC fel bod sicrwydd bod y rhaglen hon yn cael ei darparu. Efallai mai'r ffordd orau o wneud hyn yw drwy greu grŵp gorchwyl a gorffen newydd o bartneriaid perthnasol o'r RPB a phartneriaid. <ul style="list-style-type: none"> ○ I'w gytuno gan y LG a'i gyflwyno drachefn i'r RPB. • 6.7 Bod trefniadau'n cael eu rhoi yn eu lle ar gyfer derbyn unrhyw grant sy'n cael ei roi i'r ranbarth, gan gynnwys bod yn gyfrifol am adrodd i LIC yn unol ag unrhyw amodau grant gan Lywodraeth Cymru. <ul style="list-style-type: none"> ○ Cytunwyd gan y Bwrdd. 	<p>Argymhellion 6.5 a 6.6 i'w gweithredu drwy'r LG.</p>
<p>3.</p>	<p>Blaenoriaethau PSB Sir y Fflint</p> <p>Rhoddodd CE ac NA gyflwyniad ar flaenoriaethau PSB Cyngor Sir y Fflint.</p> <p>Rhoddodd CE gyd-destun byr ar gyfer y PSB, ei rôl a'i bwrpas, yn enwedig gyda darparu'r cynllun lles lleol.</p> <p>Blaenoriaethau PSB Sir y Fflint yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diogelwch cymunedol • Cymunedau gwydn 	

	<ul style="list-style-type: none"> • Amgylchedd • Economi a sgiliau • Byw'n iach ac annibynnol. <p>Disgrifiodd NA'n fanwl y gwaith ar 'fyw'n iach ac annibynnol', y dull o weithio a'r prif ddisgwyliadau darparu.</p> <p>Disgrifiodd CE strwythur partneriaeth y BGC gan bwysleisio'r dull hyblyg yr oedd y Bwrdd yn ei weithredu.</p> <p>Roedd GR yn falch bod adran iechyd y cynllun lles yn dangos enghreifftiau o'r BGC a'r BPRh yn gweithio gyda'i gilydd. Ychwanegodd MWJ ei bod yn galonogol clywed am y gwaith partneriaeth oedd yn digwydd yn y byrddau BGC gan longyfarch pawb ar y gwaith.</p>	
<p>4.</p>	<p>Nodiadau a gweithredu o'r ddau gyfarfod blaenorol – Gorffennaf 2018</p> <p>Cafodd dwy set o nodiadau eu hadolygu:</p> <p>Y cyfarfod eithriadol ar 5 Gorffennaf â'r Gweinidog Huw Irranca Davies a chydweithwyr o LIC, gyda chyflwyniad ar y Cynllun Dementia i ddilyn: Nid oedd unrhyw weithredu wedi codi o'r cyfarfod hwn a chytunodd y Bwrdd fod y nodiadau'n gofnod cywir. Nododd VW fod y Gweinidog wedi cytuno i gael cyfarfod ag ef i drafod yr iaith a ddefnyddiwyd, sy'n cael ei drafod o dan eitem 2 ar yr agenda.</p> <p>Y cyfarfod rheolaidd ar 13 Gorffennaf: Dywedodd BJE fod y diffiniad a gytunwyd â'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol wedi'i rannu ag AH. Roedd y gweithredu ar gyfer TO wedi'i gwblhau drwy'r grŵp gorchwyl a gorffen. Mae BJE hefyd wedi cyfarfod â CW i edrych ar faterion gweithlu'n ymwneud â chynllun Cymru Iachach yn deillio o'r ymateb PR, i gael sylw gan Fwrdd Gweithlu Gogledd Cymru.</p> <p>Materion yn codi: Nid yw AH wedi anfon siart berthnasoedd ymlaen – BJE i holi. Roedd WJ dal heb ddarparu nifer yr aelodau panel ar gyfer pob ardal ALI.</p>	
<p>5.</p>	<p>Datblygiadau cenedlaethol ar anhwylderau ar y sbectrwm awtistig (gan gynnwys diweddariad ar Wasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru)</p> <p>Cafwyd cyflwyniadau gan NA a SH a hefyd gan gydweithwyr SH oedd yn bresennol ar gyfer yr eitem hon.</p> <p>Cafwyd esboniad byr gan SH o Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig (ASA) a chyflwynodd y Cynllun Gweithredu Strategol (CGS) ar ASA, a gynhyrchwyd gyntaf yn 2008. Mae fersiwn ddiwygiedig y cynllun hwn wedi arwain at greu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (IAS) sydd â thîm bach i gefnogi ei ddatblygiad. Soniodd SH hefyd fod Mesur Awtistiaeth Cymru wedi'i gyflwyno gan LIC ym mis Gorffennaf.</p>	

Roedd ymgynghoriad yn 2015 wedi holi dros fil o bobl yr oedd awtistiaeth yn effeithio arnynt, ynghyd â gweithwyr proffesiynol a rhieni / gofalwyr. Roedd y themâu a gododd yn cynnwys: cymorth ar faterion emosiynol / ymddygiad, cymorth ar sgiliau a materion penodol i ASA a mynediad at wasanaethau yn y gymuned, gyda ffocws allweddol ar ddiagnosis i oedolion hefyd.

Mae gan dîm GIA Gogledd Cymru swyddfa weinyddol yn Greenfield ond bydd y tîm wedi'i leoli yn y chwe ardal ALI ac yn canolbwyntio'n bennaf ar gymorth ôl-asesiad ac ôl-ddiagnosis. Mae dau seicolegydd, wedi eu cynorthwyo gan gydweithwyr iechyd clinigol, a thîm o wyth gweithiwr cymorth (un ym mhob ardal ALI a dau arbenigwr), a hefyd un swyddog gweinyddol. Daw'r cyllid drwy CGI a'r swm yw £651,000 y flwyddyn am bedair blynedd. Mae hyn yn fuddsoddiad sylweddol gan LIC.

Mae'r GIA wedi ei gyflwyno'n llwyddiannus yn y Gogledd. Dywedodd NA y bu'n bleser gweithio â'r tîm cenedlaethol yn ystod y broses gan ddangos pa mor effeithiol oedd gweithio mewn partneriaeth i sefydlu'r gwasanaeth ar draws Gogledd Cymru mewn amser byr. Diolchodd GR hefyd i'r tîm am eu gwaith caled.

Cyflwynodd SH argymhellion yr adroddiad i'r BPRh:

- Y diweddariad cenedlaethol a rhanbarthol a chynnydd GIA Gogledd Cymru i'w nodi
- Ystyried a chytuno ar Bencampwr Awtistiaeth rhanbarth o blith aelodau'r BPRh

Roedd sylwadau a chwestiynau gan y Bwrdd yn cynnwys:

- Holodd PS am y broses atgyfeirio. Roedd gan y tîm gynghorwyr profiadol yn gweithio gyda nhw ar y mater hwn, Mae hunan-atgyfeirio'n bosib, naill ai drwy ffonio neu lenwi ffurflen. Mae sesiynau galw heibio'n cael eu trefnu a'u cynnal yn lleol. Gall gofalwyr hefyd atgyfeirio at y gwasanaeth.
- Holodd ME a oedd trafferthion gyda sicrhau bod y tîm a'r gwasanaethau'n gallu ateb gofynion gwasanaeth drwy'r Gymraeg. Mae tua hanner y tîm yn siaradwyr Cymraeg.
- Cododd PG y mater o ddyblygu gyda gwasanaethau lleol. Dywedodd y tîm eu bod yn siarad â thimau lleol i sicrhau nad oedd gwasanaethau'n cael eu dyblygu.
- Pwysleisiodd VW pa mor bwysig oedd codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a helpu i wella dealltwriaeth o beth yw 'sbectwm' awtistiaeth. Holodd hefyd a yw'r gwasanaeth yn darparu rôl eiriolwr. Dywedodd y tîm nad ydynt yn eiriolwyr ffurfiol oherwydd nad oedd yr arbenigedd ganddynt.
- Gofynnodd CE ynghylch parhad y cyllid yn y tymor hir. Eglurodd SH fod y pwyslais presennol ar ddiagnosis ond y dylai hynny newid gobeithio, gan ddibynnu ar ffrydiau cyllid yn y dyfodol. Yn amlwg roedd y tîm eisiau gweld y gwasanaethau'n parhau.

	<p>Cafwyd trafodaeth ar benodi pencampwr awtistiaeth i'r Bwrdd. Dywedodd NA y byddai'n anodd penodi un person i gynrychioli'r rhanbarth cyfan (er, fel enwebai posib, awgrymodd y Cyng. Christine Jones o Sir y Fflint). Awgrymodd ME, os oedd pencampwyr eisoes ym mhob ALI, y gallent weithio gyda'i gilydd a rhwydweithio i gynrychioli'r rhanbarth. Mae'n bwysig i'r llais lleol fwydo trwodd i'r lefel ranbarthol.</p>	<p>BJE i ofyn am enwau Pencampwyr Awtistiaeth gan y chwe ALI.</p>
6.	<p>CGI - Cyfalaf</p> <p>Cyflwynodd NA y Cynllun Cyfalaf CGI rhanbarthol a gofynnwyd i'r Bwrdd ei gadarnhau er mwyn ei gyflwyno i LIC.</p> <p>Gofynnodd SB a oedd y cynlluniau wedi eu cytuno gan adran Cynllun Cyfalaf BIPBC gan awgrymu y byddai angen iddynt eu cytuno cyn eu cyflwyno i LIC. Eglurodd BJE y broses o ddatblygu'r cynlluniau; datblygir y cynlluniau'n lleol mewn partneriaeth rhwng cydweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol cyn cytuno ar eu cynnwys yn y cynllun rhanbarthol. Bydd angen i bob cynllun gael ei gadarnhau'n derfynol gan Gyfarwyddwyr Ardal a Chyfarwyddwyr / Penaethiaid Gwasanaeth yr Awdurdodau Lleol. Pwysleisiodd NA fod angen i Adran Gyfalaf BIPBC gytuno'r cynllun ar fyrder oherwydd bod y dyddiad cyflwyno wedi pasio.</p> <p>Dywedodd GR fod y Bwrdd yn hapus i gadarnhau'r cynllun rhanbarthol.</p>	
7.	<p>Unrhyw Fusnes Arall</p> <p>Awgrymodd CT y byddai'n ddefnyddiol cael trafodaeth arall ar ymgynghoriad LIC ar Ran 9 y Ddeddf.</p> <p>Dywedodd NA fod yr ymgynghoriad yn nodi bod angen cynrychiolydd tai i eistedd ar yr BPRh yn y dyfodol. Awgrymwyd gofyn i Claire Budden, Prif Weithredwr Cymdeithas Dai Pennaf, fod yn gynrychiolydd. Meddyliodd ME tybed a allai'r Cymdeithasau Tai gytuno ar eu haelodaeth rhyngddynt, neu a fyddai dau aelod yn fwy priodol. Byddai angen datblygu unrhyw broses ar gyfer gwahodd diddordeb pe bai angen cymryd y trywydd hwn.</p>	<p>BJE i'w ychwanegu at agenda mis Hydref.</p>
<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf:</p> <p>11 Hydref 2018 9:00-12:30 OpTIC Glyndwr, Llanelwy</p>		